OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1989

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

*Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol*

**Aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol**

**11.**—(1) Rhaid i aelodaeth bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys y canlynol—

(a) o leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(b) o leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(c) y person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf mewn cysylltiad â phob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;

(d) cynrychiolydd i'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(e) dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(f) o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(g) un person i gynrychioli pobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;.

(h) un person i gynrychioli gofalwyr([1]) yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(2) Caiff bwrdd partneriaeth rhanbarthol gyfethol unrhyw bersonau eraill y mae'n meddwl eu bod yn briodol i fod yn aelodau o'r bwrdd.

(3) Caiff y cyrff partneriaeth dalu taliadau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau i aelodau byrddau partneriaeth rhanbarthol.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "darparwr gofal" ("*care provider*") yw person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000([2]) mewn cysylltiad â sefydliad neu asiantaeth (o fewn ystyr y Ddeddf honno);

mae i "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yr un ystyr ag yn adran 16(2) o'r Ddeddf.

(**1**) Diffinnir "gofalwr" yn adran 3(4) o'r Ddeddf.
(**2**) 2000 p. 14.